**Cross Party Group for North Wales**
**Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru**

# Nodyn o Gyfarfod Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, Dydd Mawrth 18 Mehefin 2019

## Yn bresennol

Llyr Gruffydd AC (yn y Gadair), Siân Gwenllian AC, Darren Millar AC, Mark Isherwood AC, Rhun ap Iorwerth AC, Mandy Jones AC

Stephen Jones (CLlLC), ysgrifennydd a chynrychiolydd y noddwr, yn bresennol.

<u>Siaradwyr:</u> Chris Llewelyn, Prif Weithredwr, CLlLC, Jon Rae, Cyfarwyddwr Cyllid, CLlLC ac Iwan Prys Jones, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

## 1. Croeso gan y Cadeirydd

Agorwyd y cyfarfod gan Llyr Gruffydd AC.

## 2. Sesiwn Briffio ar Faterion Llywodraeth Leol

**<u>Cyflwyniad</u>**

Diolchodd Chris Llewelyn i'r Grŵp am y cyfle i drafod llywodraeth leol gydag Aelodau'r Cynulliad.

Bydd gweithio ar y cyd yn sicrhau gwell canlyniadau.

Cynigiodd Chris Llewelyn gyfarfod â grwpiau unigol (gwleidyddol) yn y Cynulliad i gyflwyno sesiwn briffio debyg.

Cododd Rhun ap Iorwerth y mater o ganslo'r sesiwn briffio arfaethedig i holl Aelodau'r Cynulliad gan GLlLC ar Gyllid Llywodraeth Leol ar adeg y Setliad Llywodraeth Leol diwethaf. Roedd rhywfaint o ddrwgdeimlad ynghylch y canslad, a gafodd ei weld fel canlyniad i gytundeb ystafell gefn ar y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer Llywodraeth Leol rhwng y Llywodraeth a Grŵp Llafur y CLlLC.

Roedd cydnabyddiaeth bod y canslad yma yn gam gwag na fyddai'n digwydd eto. Mae'r Gymdeithas eisiau sicrhau cyfathrebu parhaus a chyson yn y dyfodol.

Mae cyllid yn fater allweddol gan nad yw'r grant cynnal refeniw yn cyd-fynd â'r galw cynyddol am wasanaethau. Mae'n cynyddu costau'r gweithlu a chwyddiant wrth gyflenwi nwyddau a gwasanaethau.

**Sesiwn Briffio Cyllid**

Rhoddodd Jon Rae gyflwyniad ar Gyllid. (Mae'r cyflwyniad ynghlwm ac mae'n cynnwys gwybodaeth am Gynigion Diwygio Llywodraeth Leol).

Mae Gwasanaethau'r Cyngor yn bwysig. Maent yn cefnogi'r rhai sy'n agored i niwed, gwneud bywyd yn y gymuned yn well, a chyfrannu at yr economi.

Mae deg y cant o'r gweithlu yng Nghymru yn gweithio mewn cyflogaeth Cyngor neu ysgol. Y gost cyflogau yw £3.5 biliwn, gyda llawer o hynny yn cael ei wario'n lleol.

Gwariant net Cynghorau yw £6 biliwn.

Mae cyllidebau Awdurdodau Lleol wedi cael eu lleihau mewn termau arian parod, yn bennaf o achos y lleihad yn y grant cymorth ardrethi. Yn y cyfnod 2009/10 - 2019/20 mae'r Grant Cymorth Ardrethi (y brif ffynhonnell ariannu ar gyfer gwariant y Cyngor) wedi gostwng 22 y cant. Os caiff ysgolion eu tynnu allan, mae'r ffigur hwnnw'n mynd i fyny i 35 cant.

Yn yr un cyfnod, mae cyllid ar gyfer y GIG wedi cynyddu (mewn termau arian parod). Er bod Cynghorau'n cydnabod y pwysau ar y GIG, mae gwahaniaeth sylweddol yn y ffordd y caiff y ddau sector eu trin, sy'n niweidiol i lywodraeth leol.

Dywedodd Chris Llewelyn fod y cyhoedd yn gwerthfawrogi gwasanaethau cyngor yn fawr ond nad ydynt bob amser yn deall pwy sy'n darparu'r gwasanaethau. Mae gwasanaethau anstatudol fel llyfrgelloedd, parciau, canolfannau hamdden a neuaddau cymunedol yn bwysig i'r gymuned ond yn cael eu gwasgu gan "wasanaethau statudol", yn enwedig gwasanaethau cymdeithasol.

Cafodd Gwasanaethau Ysgolion eu diogelu'n rhannol yn y cyfnod 2009/10 i 2019/20. Mae'r gwariant cyffredinol ar addysg wedi gostwng 10 y cant. Nid yw'r gwariant ar Wasanaethau Cymdeithasol wedi gostwng oherwydd nifer cynyddol y bobl hŷn a phlant sy'n agored i niwed. Mae'r gwariant ar Wasanaethau Cymdeithasol wedi cynyddu ychydig.

Mae hyn yn golygu bod gwasanaethau y tu allan i Wasanaethau Cymdeithasol ac Addysg wedi wynebu toriadau ariannol sylweddol iawn. Mae gwaith CLlLC hefyd wedi datgelu nad yw Llywodraeth Leol Cymru wedi gwneud yn well na Llywodraeth Leol yn Lloegr (myth yw dweud nad yw Cynghorau Cymru wedi cael eu torri gymaint â Chynghorau Lloegr). Mae Cynghorau Lloegr wedi cael mwy o doriadau i Wasanaethau Cymdeithasol ac Addysg o gymharu â Chymru.

Mae Cynghorau Cymru yn wynebu cynnydd chwyddiant rheolaidd o 4-5 y cant y flwyddyn ar eu cyllidebau, o achos y cynnydd mewn galw a chostau'r gweithlu (cyflogau a phensiynau).

Mae costau'r gweithlu yn cael eu gyrru gan gytundebau cyflog cenedlaethol a ffactorau eraill (fel prisiadau actiwaraidd o asedau pensiwn) sydd y tu allan i reolaeth y cynghorau.

Mae costau Gofal Cymdeithasol yn cynyddu ar gyfradd sy'n debyg iawn i'r twf yn y galw am Wasanaethau'r GIG, tua 5 – 6 y cant mewn termau arian parod.

Mae'r cynnydd sylweddol hwn yng nghostau darparu gwasanaethau yn digwydd mewn cyd-destun o setliadau gwastad ar gyfer y grant cynnal refeniw mewn termau arian parod. Mae hyn yn gorfodi cynghorau i ddod o hyd i arbedion mawr bob blwyddyn. Yn y dyfodol, bydd cyfran uwch o arbedion yn cael eu gwneud trwy doriadau gwasanaeth a cholledion swyddi a fydd yn effeithio ar y gymuned a phartneriaid (fel y GIG).

**Trafodaeth a chwestiynau**

Mynegodd ACau Gogledd Cymru, o dan arweiniad cyfraniadau gan Darren Millar a Rhun ap Iorwerth, bryder bod Fformiwla Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Leol yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael i Gynghorau Gogledd Cymru. Gwelwyd tystiolaeth o hyn gan fod Cynghorau Gogledd Cymru ymhlith y rhai a dderbyniodd y dyraniadau grant isaf (gyda thoriadau arian parod yn eu grantiau er bod cynnydd bach yn yr arian ar gyfer y gronfa grant gyffredinol).

Gofynnodd Mark Isherwood a oedd y fformiwla yn rhoi digon o sylw i nifer yr hen bobl (yng Nghonwy er enghraifft) neu gostau twristiaeth (diwrnodau ymwelwyr sy’n bwrw’r nos).

Roedd awydd clir ar ran Aelodau Cynulliad i weld Gogledd Cymru yn gwneud yn well (yn decach) yn nyraniad y cynnydd yn y grant i'r dyfodol.

Ymatebodd Chris Llewelyn drwy ddweud mai polisi'r Gymdeithas yw osgoi trafod y fformiwla a chanolbwyntio ar gynyddu maint y gronfa grantiau (yn wahanol i ddadlau sut i ddyrannu cronfa sy'n lleihau).

Y rheswm am hyn yw bod y fformiwla yn fater cymhleth, ac na fyddai pawb yn fodlon â'r fformiwla bob amser. Gallai newidiadau yn y fformiwla i gadw un grŵp diddordeb yn hapus arwain at niwed i grŵp arall, a fyddai'n ymgyrchu am newid; felly, byddai'n gylch dieflig heb sefydlogrwydd i neb.

Prif yrwyr y fformiwla dyrannu yw twf poblogaeth (ar gyfer gwahanol is-setiau o'r boblogaeth hefyd, e.e. plant ysgol a phobl hŷn) ac amddifadedd. Mae'n pwysoli teneurwydd poblogaeth hefyd.

Dywedodd Siân Gwenllian fod Prif Swyddog Gweithredol Gwynedd (sy'n aelod o'r gweithgor cenedlaethol ar ddyrannu'r grant cynnal refeniw) yn ei chynghori i ganolbwyntio ar gynyddu swm cyffredinol y grant yn hytrach na'r ddadl ar y fformiwla.

Awgrymodd cynrychiolwyr CLlLC: -

- Galw am gynnydd yn nhwf y cyllid ar gyfer y Grant Cynnal Refeniw
- Setliadau aml-flwyddyn i roi rhywfaint o sicrwydd, a'r gallu i gynllunio ar gyfer newid yn well, sy'n helpu osgoi rhai toriadau adweithiol drwy alluogi cynllunio ar gyfer pontio
- Darparu rhagor o wybodaeth ar brif yrwyr y fformiwla dyrannu

Fel crynodeb, dywedodd cynrychiolwyr CLlLC: -

- Mae Cynghorau Lleol wedi dioddef dros 10 mlynedd o lymder

- Yn fras, maent wedi llwyddo i gynnal lefelau gwasanaeth ac wedi ymdopi â'r toriadau arian drwy wneud arbedion sylweddol a chynyddu refeniw o Dreth y Cyngor a ffynonellau eraill. (Cyfeiriwyd at Gwynedd fel esiampl o hyn dros 10 mlynedd)

Mae cynghorau'n mynd yn brin o arbedion effeithlonrwydd ac ni fyddant yn gallu ail-drefnu pethau er mwyn ymdopi â thoriadau i'r Grant Cynnal Refeniw yn y dyfodol - cyrhaeddwyd pwynt allweddol, a bydd toriadau mawr yn digwydd os bydd y Llywodraeth yn parhau â'i pholisi presennol o roi'r twf arian yn ei chyllidebau i mewn i'r GIG

- Mae'r Sector eisiau cefnogaeth i ariannu chwyddiant drwy'r Grant Cynnal Refeniw.
- Dylai Gwasanaethau Cymdeithasol fod yn bartner cyfartal i'r GIG, a chael a'u hariannu fel y GIG

Cafwyd trafodaeth fer wedyn ar ***Ddiwygio Llywodraeth Leol***.

Roedd Derek Vaughan wedi arwain gweithgor ar y cyd rhwng Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru sydd bellach wedi cyflwyno adroddiad. Mae CLlLC yn gefnogol o'r dull a gynigiwyd gan y Gweithgor i'r Cyngor Partneriaeth ar yr amod ei fod yn cael ei weithredu'n wirfoddol.

Un o nodweddion gwaith y gweithgor oedd ailddarganfod faint o gydweithio a chydweithredu sy'n digwydd rhwng awdurdodau i ddarparu gwydnwch a gwelliant gweithredol.

Nid yw gwasanaethau a rennir yn ddiben ynddynt eu hunain ac ni ddylid mabwysiadu hynny oni bai bod achos busnes cadarnhaol a manteision amlwg.

Dywedodd Mark Isherwood fod Peter Fox (Arweinydd, Sir Fynwy) wedi briffio cydweithwyr na ddylid gorfodi Cynghorau i gydweithio. Gofynnodd am sicrwydd na fyddai Llywodraeth Cymru yn gwneud hyn.

Anogodd Mark hefyd y dylai Cynghorau wneud pethau'n wahanol.

Ymatebodd Chris Llewelyn fod gan Gynghorau hanes da o gydweithio. Maent wedi ymateb i Lywodraeth Cymru ar Gonsortia Addysg. Maent yn cydweithio mewn:

- Byrddau Partneriaeth Ranbarthol i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.
- Byrddau Dinas-ranbarth a Byrddau Twf Lleol i gyflawni datblygiad a thwf economaidd

Mae llawer o enghreifftiau o gydweithio i gyflawni arbedion a diwallu anghenion gweithredol. Mae'r cyd-destun ariannol yn rhoi cymhelliad i Gynghorau weithio gyda'i gilydd lle y gallant.

Mae cydweithrediadau mwy yn dod â chostau ailstrwythuro sylweddol, a dyna pam mae'r cydweithrediadau gweithredol llai yn fwy poblogaidd o ystyried eu bod yn haws eu rhoi ar waith yn gyflym heb gostau ymlaen llaw.

Mae angen i gynghorau sicrhau bod unrhyw gydweithrediadau yn atebol yn lleol ac y gall Aelodau Etholedig graffu arnynt. Mae angen ystyried barn ac anghenion defnyddwyr gwasanaeth hefyd mewn cynigion.

Mae'r angen i gynghorau wneud busnes yn wahanol yn cael ei ategu gan y gofyniad i arbed 4-5 y cant o'r gyllideb yn y blynyddoedd nesaf. Mae hefyd angen datblygu dulliau sy'n “atal” galw yn y dyfodol.

## Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC); y wybodaeth ddiweddaraf

Rhoddodd Iwan Prys Jones ddiweddariad ar Fargen Twf Gogledd Cymru.

Mae'r BUEGC a'r ddwy lywodraeth yn anelu at gwblhau Penawdau Telerau erbyn diwedd mis Gorffennaf. Bydd set ddrafft o'r rhain yn mynd i Gyfarfod BUEGC ar 26 Gorffennaf 2019.

Roedd cynyddu twf gwerth ychwanegol gros yn allweddol i'r strategaeth y tu ôl i'r Cais Twf. Dros y tymor hir, mae Gogledd Cymru wedi cael perthynas sefydlog â gwerth ychwanegol gros y DU yn gyffredinol, sef tua 70 y cant – 75 y cant, gyda rhywfaint o amrywiad ar draws y rhanbarth. Yn ddiweddar, mae Wrecsam a Sir y Fflint wedi gweld twf sylweddol nad yw wedi cael ei gyfateb ar draws rhan fwyaf y rhanbarth.

Mae'r BUEGC yn ceisio mynd i'r afael â'r gwahanol heriau yn y rhanbarth:

- Mae Gogledd-ddwyrain Cymru yn brin o Safleoedd, Eiddo a gweithwyr medrus i alluogi twf parhaus
- Mae Gogledd Orllewin Cymru yn parhau i gael twf araf ac mae angen ymyrraeth gryfach, yn enwedig yng ngoleuni'r oedi i Wylfa Newydd.

Mae gan y Bwrdd strategaeth dda ac mae wrthi'n defnyddio'r Cais Twf fel arf i fynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n wynebu'r rhanbarth, e.e. prinder safleoedd ac adeiladau.

Mae cyfyngiadau ar y Cais Twf. Ni all gefnogi mentrau sydd angen cyllid refeniw (fel sgiliau a chefnogi busnesau) neu fuddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth “mawr”.

Mae'r Cais yn llwyfan ar gyfer datblygu ond nid yw'n ymateb strategol cynhwysfawr i anghenion y rhanbarth.

Y cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd yw £240 miliwn, gyda £120 miliwn o'r ddwy lywodraeth. Mae trafodaethau ar y gweill i sicrhau £40 miliwn ychwanegol i liniaru'r oedi o ran buddsoddi yn Wylfa Newydd.

Mae dau gam i'r Cais: -

- Cam 1: Prosiectau gyda dyraniadau arian parod penodol
- Cam 2: Rhaglenni gyda dyraniadau hyblyg (nid prosiectau)

Prosiectau Cam 1 yw: -

| **Ariennir gan Lywodraeth y DU** | **Ariennir gan Lywodraeth Cymru** |
|---|---|
| • Seilwaith Digidol | • Rhaglen Safleoedd ac Adeiladau |
| • Trawsfynydd - Paratoi ar gyfer adweithyddion modiwlar bach | • Porthladd Caergybi (Porth Gogledd Cymru) |
| • Sefydliad Ymchwil Bangor (Niwclear) | |
| • Ynni Clyfar | |

Mae'r llywodraethau yn ariannu Rhaglen Cam 1 yn gyfartal. Mae'r ddwy raglen Llywodraeth Cymru yn cyfateb i bedwar prosiect Llywodraeth y DU o ran gwerth arian parod.

Ar ôl gwaith ar benawdau telerau, bydd gwaith yn dechrau ar achosion busnes manwl.

Mae'r BUEGC yn sefydlu strwythur o is-fyrddau: -

- Trafnidiaeth
- Digidol
- Safleoedd ac Adeiladau
- Ynni

Bydd y rhain yn cael eu gwasanaethu a'u cefnogi gan y Swyddfa Rhaglenni. Mae'r Bwrdd yn recriwtio cyfarwyddwr ac mae'n bwriadu recriwtio nifer o swyddi i weithio ar Achosion Busnes, y bydd yn gyfrifoldeb y Swyddfa Rhaglenni.

Dywedodd Siân Gwenllian y dylai'r rhanbarth fod yn chwilio am fuddsoddiad "blaenllaw" a fyddai'n ddewis amgen na Wylfa Newydd. Mae'r rhanbarth yn gorddibynnu ar y sector niwclear a Wylfa Newydd.

Dywedodd Llyr Gruffydd fod gwerth cyffredinol y Cais (£120 miliwn x 2) yn annigonol. Mae angen canolbwyntio mwy ar sicrhau buddsoddiad seilwaith sylweddol.

Dywedodd Rhun ap Iorwerth fod cynllun Morlais (rhan o'r Rhaglen Ynni Clyfar bosibl petai'r £40 miliwn ychwanegol yn cael ei gytuno) yn amser gyfyngedig ac mae angen ei gynnwys yn gynnar yn y rhaglen er mwyn symud ymlaen.

Ymatebodd Iwan Prys Jones fod y Rhaglen Safleoedd ac Adeiladau yn cynrychioli buddsoddiad seilwaith mawr yn y Cais. Mae'n cynnwys seilwaith ar gyfer parciau busnes / ystadau diwydiannol, datblygu tai a buddsoddi mewn asedau twristiaeth (ehangu cyfleusterau fel Bounce Below a Zip World).

Gofynnodd Mark Isherwood am yr amserlen ar gyfer y buddsoddiad yn yr adweithyddion modiwlar bach. Dywedodd Iwan ei fod yn dibynnu'n rhannol ar Bapur Gwyn yr adolygiad ynni sy'n cael ei gyhoeddi yn hydref 2019.

Roedd Mark hefyd eisiau diweddariad ar gynnydd trafodaethau i ddatganoli o Lywodraeth Cymru i'r BUEGC.

Roedd yr ymateb yn canolbwyntio ar ddatblygu partneriaeth rhwng y BUEGC a Llywodraeth Cymru i gytuno ar flaenoriaethau ac i benderfynu pwy sy'n cyflawni beth ar ba lefel. Bydd y dull partneriaeth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Trafnidiaeth, Cymorth Busnes a Mewnfuddsoddi.

## Unrhyw fater arall

Nid oedd unrhyw fater arall.